

Polisi Prifysgolion Aberystwyth a Bangor ar Ddefnyddio Deunydd Hawlfraint Trydydd Parti

Perchennog y Polisi:	<i>Swyddog Hawlfraint y Brifysgol</i>
Corff Cymeradwyo:	<i>Grŵp Tasg y Llyfrgell ac Archifau</i>
Dyddiad Cymeradwyo:	<i>15/03/2016 [cofnod 217. [b]]</i>
Dyddiad y Daw i Rym:	<i>15/03/2016</i>
Dyddiad yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb:	<i>01/03/2016</i>
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	<i>Mawrth 2019</i>

1. Pwrpas y Polisi

1.1. Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ("y brifysgol" o hyn ymlaen), eu staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill eu hadnoddau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawlfraint wrth ddefnyddio deunydd hawlfraint trydydd parti at ddibenion addysgu a dysgu, ymchwil ac unrhyw fusnes arall sy'n gysylltiedig â'r brifysgol.

2. Cwmpas/Perthnasedd y Polisi hwn

2.1. Yr hyn mae'n ei gynnwys

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â defnyddio deunydd trydydd parti yn unig. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff a myfyrwyr y brifysgol ac unrhyw rai eraill sy'n defnyddio adnoddau'r brifysgol i gopïo neu atgynhyrchu deunydd ar unrhyw ffurf. (e.e. llungopïo, sganio, atgynhyrchu digidol).

Mae'r polisi hwn yn cymryd trosolwg o ddeddfau hawlfraint ac mae'n ymwneud â phob deunydd hawlfraint printiedig, electronig a digidol a ddefnyddir o fewn cwmpas gweithgareddau'r brifysgol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r deunydd hwn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: testun, delweddau, cronfeydd data, dyluniadau graffig, logos, recordiadau sain, ffilmiau, darllediadau, rhaglenni cyfrifiadurol (meddalwedd) a deunydd electronig a gedwir ar yriannau lleol ac o bell ac ar safleoedd rhyngwyd.

2.2. Yr hyn nad yw'n ei gynnwys

Nid yw'r polisi yn cynnwys perchnogaeth hawlfraint y brifysgol o ddeunyddiau a grëwyd gan aelodau staff a myfyrwyr unigol. Am ymholiadau ynglŷn â hawlfraint gwaith aelodau staff a myfyrwyr, gweler y Polisi ar y Cyd ar Hawliau Eiddo Deallusol yn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/au-and-bu/intellectual-property/>

3. Cyfrifoldebau

3.1. Cyffredinol

Cyfrifoldeb cyfarwyddwyr y sefydliad, deoniaid, penaethiaid ysgolion, penaethiaid adrannau, cyfarwyddwyr addysgu a dysgu a chyfarwyddwyr gwasanaethau cefnogi yw sicrhau gweithrediad y polisi hwn ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig y gellir eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

3.2. Prifysgol Aberystwyth

Mae gan Brifysgol Aberystwyth Reolwr Hawlfraint sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth briodol i aelodau staff a myfyrwyr y brifysgol. Y Rheolwr Hawlfraint sydd hefyd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cyfeirio unrhyw risgiau difrifol neu faterion yn ymwneud ag adnoddau i'r Dirprwy Is-ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu.

3.3. Prifysgol Bangor

Ym Mhrifysgol Bangor, mae cyfrifoldebau'r Pennaeth Cefnogaeth Academaidd yn cynnwys gweithredu fel Swyddog Hawlfraint a Chydlynedd CLA (*Copyright Licencing Agency*). Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth briodol, gan weithio'n agos â Grŵp Hawlfraint y Llyfrgell. Y Swyddog Hawlfraint fydd hefyd yn penderfynu a ddylid cyfeirio unrhyw risgiau i'r Grŵp Llywio Hawlfraint. Caiff unrhyw risg difrifol ei gyfeirio gan y Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd ac Archifau i'r Dirprwy Is-ganghellor dros Addysgu a Dysgu.

3.4. Aelodau'r Brifysgol

Cyfrifoldeb aelodau staff unigol, pobl eraill sy'n gweithio ar ran y brifysgol neu fyfyrwyr yw defnyddio'r deunydd trydydd parti mewn modd priodol a chyfreithlon. Ni ddylid torri hawliau neilltuedig deiliaid hawlfraint.

4. Polisi Manwl

4.1. Cyffredinol

Mae'r brifysgol yn parchu ac yn ufuddhau i'r egwyddor ddiogelu hawlfraint ar gyfer yr holl waith a grëwyd gan drydydd parti ac yn gofyn i'r holl aelodau staff a myfyrwyr wneud yr un peth. Mae'r brifysgol yn ymdrechu pob amser i gydymffurfio â deddfwriaeth hawlfraint y DU (Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988 a'r rheoliadau cysylltiedig), a'r ddeddfwriaeth gyfatebol mewn awdurdodaethau eraill y mae'r brifysgol yn gweithredu ynddynt ac i gadw at delerau trwyddedau hawlfraint.

Gall tor deddfwriaeth neu drwyddedau hawlfraint gan unrhyw unigolyn arwain at gymryd camau cyfreithiol yn erbyn yr unigolyn neu yn erbyn y brifysgol. Mae'r brifysgol yn ystyried tor hawlfraint fel mater difrifol iawn a gall gymryd camau disgyblu pan fydd hyn yn digwydd.

4.2. Caniatâd

Ni ddylid torri hawliau neilltuedig deiliaid hawlfraint. Dyma'r hawliau neilltuedig:

- Copïo eu gwaith
- Dosbarthu copïau i bobl eraill
- Perfformio, dangos neu chwarae'r gwaith yn gyhoeddus

- Cyfathrebu'r gwaith i'r cyhoedd
- Addasu'r gwaith neu wneud unrhyw rai o'r uchod mewn perthynas ag addasiad

Cyn copïo neu ddefnyddio deunydd a ysgrifennwyd gan bobl eraill mewn unrhyw ffordd arall, mae'n rhaid i'r unigolyn benderfynu a yw'r deunydd yn ddarostyngedig i hawlfraint trwy ystyried a yw'r defnydd a fwriedir naill ai:

- Yn gyfreithiol dan eithriad statudol;
- Wedi ei ganiatáu gan "ddelio'n deg" neu unrhyw gyfraith arall, neu
- Wedi ei ganiatáu gan drwydded

Os na fydd unrhyw un o'r uchod yn berthnasol, rhaid i'r unigolyn gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint. Dylai'r caniatâd gael ei gadw gan yr unigolyn a ofynnodd amdano hyd nes na fydd angen defnyddio'r deunydd hawlfraint mwyach. Os caiff y deunydd hawlfraint ei drosglwyddo i archif, bydd rhaid trosglwyddo'r ddogfennaeth ganiatâd hefyd.

4.3. Canllawiau a Gweithredu

Mae Prifysgol Aberystwyth yn darparu canllawiau manwl ar gyfraith hawlfraint a'r trwyddedau sefydliadol y mae'n un o'r llofnodwyr iddynt. Mae'r manylion ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/copyright/>

Disgwylir i staff a myfyrwyr ymgyswrtu â chanllawiau o'r fath a'u cymhwyso yn eu holl ymwneud â gwaith hawlfraint.

Mae Prifysgol Bangor yn darparu gwybodaeth hawlfraint i staff a myfyrwyr yn:

<https://www.bangor.ac.uk/library/copyright/copyright-staff.php.cy>

<https://www.bangor.ac.uk/library/copyright/copyright-students.php.cy>

Disgwylir i staff a myfyrwyr ymgyswrtu â'r wybodaeth a'r canllawiau hawlfraint ar y gwe-dudalennau a'u cymhwyso yn eu holl ymwneud â gwaith hawlfraint.

Bydd y brifysgol yn gosod hysbysiadau hawlfraint ger yr holl beiriannau perthnasol y gellir eu defnyddio i atgynhyrchu deunyddiau hawlfraint.

Os bydd aelodau staff neu fyfyrwyr y brifysgol yn ansicr ynglŷn â'u hatgynhyrchiad arfaethedig neu ynglŷn ag aildefnyddio'r gwaith hawlfraint trydydd parti mewn unrhyw ffordd arall, gallant gysylltu â'r aelodau staff canlynol:

Prifysgol Aberystwyth - Rheolwr Hawlfraint y Brifysgol, Llyfrgell Hugh Owen
Prifysgol Bangor - Pennaeth Cefnogaeth Academaidd, Prif Lyfrgell

4.4. Cydymffurfio a Chosbau

Yn ychwanegol at y rhwymedïau a ddarperir dan y gyfraith i ddeiliaid hawlfraint (a all fod yn erbyn y troseddwr a/neu'r brifysgol):

- Gall unrhyw gamymddwyn neu dor polisi'n ymwneud â'r polisi hwn gan unrhyw o aelodau staff y brifysgol arwain at gamau disgyblu dan weithdrefnau priodol y brifysgol.

- Caiff unrhyw dor polisi gan fyfyrwyr ei drin fel achos o gamymddwyn academiaidd a bydd y gweithdrefnau disgyblu safonol yn berthnasol.

4.5. Cymeradwyo a Pholisi Adolygu

Caiff y polisi hwn ei oruchwylio gan y Rheolwr Hawlfraint ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Swyddog Hawlfraint ym Mhrifysgol Bangor sydd wedi eu hawdurdodi i weithredu mân ddiwygiadau, cywiriadau ac esboniadau i'r polisi hwn. Caiff diwygiadau sylweddol sy'n effeithio ar fwriad a dyhead y polisi eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol.

5. Deddfwriaeth Berthnasol, Codau Ymarfer, etc.

5.1. Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

6. Polisiâu a gweithdrefnau cysylltiedig (yn amodol ar adolygiad pellach ac ystyriaethau lleol)

- Polisi cyffredin Aber/Bangor ar hawliau eiddo deallusol
- Polisi ar ddefnydd derbyniol o adnoddau TG (o ran defnyddio a chyrchu meddalwedd)
- Polisi ar Gyhoeddi
- Rheolau a rheoliadau myfyrwyr

7. Manylion cyswllt

7.1. Os oes arnoch angen rhagor o gyngor am y polisi hwn, cysylltwch â'r canlynol:

Rheolwr Hawlfraint y Brifysgol
Gwasanaethau Gwybodaeth
Llyfrgell Hugh Owen
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3DZ

Ffôn: 01970 628592

E-bost: infocompliance@aber.ac.uk

Swyddog Hawlfraint y Brifysgol
Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

Ffôn: 01248 382981

E-bost: hawlfraint@bangor.ac.uk

8. Adolygu

- 8.1.** Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd ar y cyd â budd-ddeiliaid Prifysgol Aberystwyth a Bangor, neu'n gynharach os bydd newid mewn deddfwriaeth berthnasol neu ffactorau eraill a all ei gwneud hi'n ofynnol i gael adolygiad.

9. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

- 9.1.** Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymgorffori ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn ei pholisïau, trefniadau ac arferion. Gwnaed asesiad effaith cydraddoldeb ar y polisi hwn yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb.